

**ATODIAD A – Monitro Cydraddoldeb Hiliol, 2007****Nodiadau:**


- Mae'r data a roir yma'n cydymffurfio â chanllawiau Cod Ymarfer Statudol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol.
- Lle bo modd, bydd y Brifysgol yn casglu data yn unol â'r categorïau ethnig a argymhellir yng nghanllaw perthnasol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Ond gan fod y data a gasglwyd wrth fonitro derbyn a chynnydd myfyrwyr a denu a datblygu staff yn ôl eu grwpiau hiliol yn defnyddio data a ddarparwyd gan gyrrff yn y sector cenedlaethol, e.e. yr HESA, UCAS, fe allant fod yn anghyson mewn rhai categorïau.
- Cymaryddion demograffig: mae cyfrifiad 2001 yn cofnodi bod 1.4% o boblogaeth Ceredigion yn dod o leiafrifoedd ethnig. Mae hynny'n cymharu â 2.1% ar gyfer Cymru a 7.9% ar gyfer y DU gyfan. Yn Aberystwyth ei hun, oherwydd lleoliad y Brifysgol a'r Ysbyty, y mae'r prif grynodiad o leiafrifoedd ethnig yng Ngheredigion. Canran y gweithwyr o leiafrifoedd ethnig yng ngweithlu Sector Addysg Uwch Cymru ar gyfer 2005/06 oedd 3.9%.

**Monitro Myfyrwyr:****Derbyn – y gofynion o ran data:****1. Dewis pwnc**


- I'w adolygu – ar gael fesul Cyfadran yn unig ar hyn o bryd.

**2. Statws Cartref neu Ryngwladol**

- Mae'r tabl isod yn dangos y duedd o ran myfyrwyr croenddu neu fyfyrwyr o leiafrifoedd ethnig dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.



- Fel mae'r tabl yn dangos, mae nifer y myfyrwyr sy'n groenddu neu'n dod o leiafrifoedd ethnig ychydig yn is yn 2005/06 am fod cyfanswm y myfyrwyr tramor wedi gostwng ychydig bach.
- Yn 2007, mae'r ffigur wedi gostwng ychydig bach eto i 7.15%, a hynny hefyd oherwydd gostyngiad yn nifer y myfyrwyr tramor. Mae strategaeth i ddenu myfyrwyr tramor yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.
- Er hynny, mae nifer y myfyrwyr cartref sy'n groenddu neu'n dod o leiafrifoedd ethnig wedi cynyddu ychydig bach yn ystod y flwyddyn gyfredol.
- Mae'r tabl isod yn dangos canran y myfyrwyr cartref a rhyngwladol yn y cyfanswm o 9169 o fyfyrwyr yn 2005/06. (IR = Israddedig; UR = Uwchraddedig)



- O'r 9169 o fyfyrwyr yn 2005/06, cofnodwyd cyfanswm o 297 o fyfyrwyr, sef 3.24% o fyfyrwyr cartref israddedig ac uwchraddedig sydd o gefndir croenddu neu'n dod o leiafrifoedd ethnig.
- O ran myfyrwyr tramor israddedig ac uwchraddedig sy'n groenddu neu'n dod o leiafrifoedd ethnig, cofnodwyd bod cyfanswm o 434 ohonynt neu 4.73%.


|   |
|---|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hynny yw, cyfanswm o 7.97% o fyfyrwyr sy'n groenddu neu'n dod o leiafrifoedd ethnig ar gyfer 2005/06.</li> <li>• Caiff myfyrwyr eu denu o Birmingham (23 myfyriwr), o Wolverhampton, ac o Swyddi Hertford, Amwythig a Stafford (7 myfyriwr yr un).</li> </ul>  |
| <p><b>3. Y dull dewis</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Seilir y dulliau dewis ar ffurflenni cais y myfyrwyr ac ar bwyntiau UCAS sy'n briodol ar gyfer cyrsiau gradd penodol.</li> </ul>   |
| <p><b>Argymhellion ychwanegol:</b></p>  |
| <p><b>4. Ceisiadau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn 2005/06 gwnaed cyfanswm o 9765 o geisiadau, 4997 ohonynt gan fenywod a 4768 gan wrywod. Caiff data am fyfyrwyr sy'n groenddu neu'n dod o leiafrifoedd ethnig eu cofnodi y flwyddyn nesaf.</li> </ul> <p><b>5. Y cynigion a wnaed</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Derbyniwyd cyfanswm o 2190 o'r ceisiadau – 1037 gan fenywod a 1153 gan wrywod. Caiff data am fyfyrwyr sy'n groenddu neu'n dod o leiafrifoedd ethnig eu cofnodi y flwyddyn nesaf.</li> </ul> <p><b>6. Llwyddiant cymharol y dull dewis (megis ffurflen UCAS, cyfweiliad anffurfiol, cyfweiliad ffurfiol, mecanwaith graddio)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• I'w adolygu.</li> </ul> <p><b>7. Myfyrwyr yn derbyn lleoedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• O'r cyfanswm o 2190 o dderbyniadau yn 2005/06, cofnodwyd cyfanswm o 3.29% ohonynt yn dderbyniadau gan fyfyrwyr sy'n groenddu neu'n dod o leiafrifoedd ethnig a myfyrwyr 'Eraill'.</li> <li>• O gyfanswm y derbyniadau ym mhob cyfadran unigol, cofnodir y canrannau o fyfyrwyr sy'n groenddu neu'n dod o leiafrifoedd ethnig a myfyrwyr eraill fel hyn:<br/>Y Gwyddorau Cymdeithasol 5.6%, Y Gwyddorau 2.9% a'r Celfyddydau 2.3%</li> </ul>  |
| <p><b>Cynnydd – y gofynion o ran data:</b></p>  |
| <p><b>8. Niferoedd y myfyrwyr, y trosglwyddiadau a'r myfyrwyr a roddodd y gorau i'w cyrsiau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• I'w hadolygu.</li> </ul>   |
| <p><b>9. Gwahanol ddulliau o asesu myfyrwyr</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• I'w hadolygu.</li> </ul>   |
| <p><b>10. Lleoliadau gwaith</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• I'w hadolygu – mae'r data ar gael.</li> </ul>  |
| <p><b>11. Canlyniadau'r rhaglenni a dargedwyd at bobl o grwpiau hiliol penodol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r PCA yn dal i dargedu pobl o gymunedau'r Sipsiwn Romani yn Sir Benfro i'w hannog i gael addysg neu hyfforddiant. Mae hi hefyd wedi datblygu amrywiaeth o gysylltiadau arbenigol i gynyddu proffil y rhaglen ymysg grwpiau o leiafrifoedd ethnig – er enghraifft, cyswllt sy'n gweithio gyda Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.</li> <li>• Mae Prifysgol Haf Cymru wedi ceisio denu cyfranogwyr o blith grwpiau o leiafrifoedd ethnig a meithrin perthynas gref ag ysgolion a cholegau yn y rhannau o'r De lle daw niferoedd uwch na'r cyffredin o'r disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Erbyn hyn, mae'r cyrsiau hynny'n cyrraedd targed o 15-20% ymhlith grwpiau o leiafrifoedd ethnig.</li> <li>• Mae Canolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol PCA yn dal i feithrin cysylltiadau â Pharthau Gweithredu ar Addysg yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, a daw cyfran o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig o'r ardal honno i ddiwrnodau 'Blas ar Brifysgol' yn PCA. Yn ogystal, mae PCA yn rhwydweithio â'r rhai o leiafrifoedd ethnig sydd wedi bod yn y Brifysgol Haf ac sydd, wedi iddynt ddychwelyd i'w hen ysgolion yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, yn hybu Aberystwyth mewn ardaloedd lle ceir cyfran uwch na'r cyffredin o bobl o leiafrifoedd ethnig.</li> <li>• Mae'r monitro'n dangos mai un myfyriwr o gategori myfyrwyr sy'n groenddu neu'n dod o leiafrifoedd ethnig a fethodd ei (g)radd israddedig yn 2005/06, sef un o blith y cyfanswm o 14 methiant.</li> </ul> |
| <p><b>12. Bwlio ac aflonyddu hiliol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni chyflwynwyd unrhyw achos yn ffurfiol ar gyfer 2007.</li> </ul>  |
| <p><b>Argymhellion ychwanegol:</b></p>  |
| <p><b>13. Cynigion swydd sy'n deillio o leoliadau gwaith</b></p> <p><b>14. Cyfraddau cyflogi ar ôl graddio</b></p> <p><b>15. Lefelau'r gweithredu disgyblaethol</b></p> <p><b>16. Adroddiadau am ddigwyddiadau o wahaniaethu anghyfreithlon, a'u canlyniadau</b></p> <p><b>17. Cyflawnwyr a dioddefwyr honedig gwahaniaethu anghyfreithlon</b></p> <p><b>18. Canlyniadau'r gwaith i godi lefelau cyrhaeddiad y myfyrwyr</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• I'w hadolygu.</li> </ul>   |

**Monitro Staff:**

| <b>Denu – y gofynion o ran data:</b>  |                |                |          |           |          |           |           |          |           |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
|---|----------------|----------------|----------|-----------|----------|-----------|-----------|----------|-----------|-----|-------------|-------------|----------------|----------------|-------------------------|-----|------|---------------|-------|-------|
| <b>1. Dewis a hyfforddi aelodau paneli</b>  |                |                |          |           |          |           |           |          |           |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Fel amod bod yn gymwys i wasanaethu fel aelod o Banel Dewis ar gyfer penodiadau, mae 5 sesiwn o hyfforddiant <b>Sgiliau Cyfweld</b> (sy'n cynnwys hyfforddiant mewn cydraddoldeb ac amrywioldeb) wedi'u cynnal. Eleni, cafodd 44 aelod o'r staff yr hyfforddiant hwnnw a'r bwriad yw cyflwyno sesiwn arall ym mis Mai 2007.</li> <li>Mae hyfforddiant mewn sicrhau <b>Cyfle Cyfartal wrth Ddenu a Dewis</b> hefyd wedi'i roi i aelodau o'r Cyngor ac i Uwch-Staff pob adran / is-adran. Gan fod yr aelodau hynny hefyd ar Baneli Dewis, mae cyfanswm o 69 o bobl wedi cael yr hyfforddiant hwnnw. Bwriedir rhoi rhagor o hyfforddiant ym mis Mehefin 2007 i fwy na 70 o gynrychiolwyr, gan gynnwys sesiwn a gyflwynir yn Gymraeg.</li> <li>Yn ogystal, rhoddwyd hyfforddiant a oedd wedi'i dargedu (ar Gydraddoldeb Oedran a Chydraddoldeb Anabledd) i 23 o staff Adnoddau Dynol ac, yn ogystal, rhoddwyd <b>Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd</b> penodol i 13 o bobl.</li> <li>Cyflwynwyd cwrs ar <b>Addysgu Myfyrwyr Rhyngwladol</b> i 10 o'r staff.</li> <li>Mae data'r cronfeydd data o staff sy'n rhoi'r hyfforddiant hwnnw wedi'u glanhau a'u diweddarau eleni.</li> </ul> |                |                |          |           |          |           |           |          |           |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| <b>2. Ceisiadau a phenodiadau</b>   |                |                |          |           |          |           |           |          |           |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Cafodd monitro ceisiadau ei adolygu â llaw ar gyfer y cyfnod o 1 Ionawr 2007 tan 31 Mai 2007.</li> <li>Ymhlith y 763 o ymgeiswyr am 68 o swyddi, fe gynrychiolwyd 40 o wahanol genhedloedd (gan gynnwys pobl o Brydain, Cymru, yr Alban, Iwerddon a Lloegr). Cofnodwyd bod rhyw 5% ohonynt o darddiad Croenddu neu o leiafrifoedd ethnig. Nid yw cyfradd lwyddo'r ymgeiswyr hynny'n hysbys ar hyn o bryd.</li> <li>Bwriedir gweithredu mecanwaith i gyfrifiaduro'r data hynny yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.</li> </ul>  |                |                |          |           |          |           |           |          |           |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| <b>3. Cyfraddau llwyddo'r gwahanol ddulliau dewis</b>   |                |                |          |           |          |           |           |          |           |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Y prif ddull o ddewis yw ffurflen Asesu Cyfweliad, sef matrices sgorio.</li> <li>Cynhelir cyflwyniadau ac asesiadau ymarferol hefyd ar y cyd â'r uchod ac ni roir sgôr ffurfiol i'r broses honno.</li> </ul>   |                |                |          |           |          |           |           |          |           |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| <b>4. Penodiadau parhaol, dros dro neu am gyfnod penodol</b>  |                |                |          |           |          |           |           |          |           |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| <table border="1" style="margin-left: auto; margin-right: auto;"> <thead> <tr> <th></th> <th><b>Benywod</b></th> <th><b>Gwrywod</b></th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td><b>Cyfanswm y Staff</b></td> <td>999</td> <td>1025</td> </tr> <tr> <td><b>Canran</b></td> <td>49.4%</td> <td>50.6%</td> </tr> </tbody> </table>  |                |                |          |           |          |           |           |          |           |     |             |             | <b>Benywod</b> | <b>Gwrywod</b> | <b>Cyfanswm y Staff</b> | 999 | 1025 | <b>Canran</b> | 49.4% | 50.6% |
|   | <b>Benywod</b> | <b>Gwrywod</b> |          |           |          |           |           |          |           |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| <b>Cyfanswm y Staff</b>   | 999            | 1025           |          |           |          |           |           |          |           |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| <b>Canran</b>   | 49.4%          | 50.6%          |          |           |          |           |           |          |           |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| Cefndir Croenwyn Arall  | 28             | 7              |          | 3         | 4        | 1         | 2         |          | 11        | 28  | <b>1.4%</b> |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| Croenddu o'r Caribi   | 2              | 1              |          |           | 1        |           |           |          |           |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| Croenddu o Affrica  | 7              |                |          |           | 2        | 2         |           |          | 3         |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| Cymysg Arall  | 1              | 1              |          |           |          |           |           |          |           |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| Eraill  | 23             | 6              | 3        | 4         | 3        | 1         | 2         | 1        | 3         |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| O India   | 9              | 3              |          | 1         | 1        | 2         |           |          | 2         |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| Eraill o Asia   | 6              | 1              |          | 1         |          |           | 1         | 1        | 2         |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| O Tsieina   | 21             | 4              |          | 3         | 1        | 4         | 5         |          | 4         |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| O Bangladesh  | 1              |                |          |           |          |           |           |          | 1         |     |             | 70          | <b>3.5%</b>    |                |                         |     |      |               |       |       |
| Gwrthodwyd Dweud  | 32             | 4              | 1        | 2         | 1        | 10        | 4         | 3        | 7         |     |             |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| Anhysbys  | 80             | 32             | 7        | 8         |          | 20        | 3         | 2        | 8         | 112 | <b>5.5%</b> |             |                |                |                         |     |      |               |       |       |
| <b>Cyfanswm</b>   | <b>2024</b>    | <b>41</b>      | <b>8</b> | <b>14</b> | <b>2</b> | <b>34</b> | <b>13</b> | <b>6</b> | <b>22</b> |     |             | <b>100%</b> |                |                |                         |     |      |               |       |       |

### 5. Statws Cartref neu Ryngwladol

- Mae lluo o drwyddedau gweithio mewn grym ar hyn o bryd ar gyfer staff sy'n dod o Bangladesh, India, Nigeria, Rwsia, Seland Newydd, Siapan, Sri Lanka, Taiwan, Tsieina, Wsbecistan, yr Unol Daleithiau. I staff o Tsieina y cafwyd y nifer fwyaf o drwyddedau.
- Ceir pobl o 53 o genhedloedd yn PCA (gan gynnwys Cymru, Lloegr, Iwerddon a'r Alban).
- Cofnodir mai 12% yw'r ganran o staff o Gymru ar hyn o bryd, sef cyfanswm o 237.



### Cyfanswm y Staff – Mai 2007

|                               |             |          |      |                |
|-------------------------------|-------------|----------|------|----------------|
| Prydeinwyr Croenwyn           | 1588        |          |      |                |
| Gwyddelod Croenwyn            | 10          |          |      |                |
| <b>Croenwyn</b>               | <b>216</b>  | Cyfanswm | 1814 | 89.6%          |
| <b>Cefndir Croenwyn Arall</b> | <b>28</b>   | Cyfanswm | 28   | 1.4%           |
| Croenddu o'r Caribî           | 2           |          |      |                |
| Croenddu o Affrica            | 7           |          |      |                |
| Cymysg Arall                  | 1           |          |      |                |
| Eraill                        | 23          |          |      |                |
| O India                       | 9           |          |      |                |
| O Asia                        | 6           |          |      |                |
| O Tsieina                     | 21          |          |      |                |
| O Bangladesh                  | 1           | Cyfanswm | 70   | 3.5%           |
| Gwrthodwyd Dweud              | 32          |          |      |                |
| Anhysbys                      | 80          | Cyfanswm | 112  | 5.5%           |
|                               | <b>2024</b> |          |      | <b>100.00%</b> |


- Yn 2003, nodwyd bod 34 o'r staff yn groenddu neu'n dod o leiafrifoedd ethnig, a dangoswyd bod 77 o'r staff yn 'groenwyn arall'. Ymhlith y staff a ddenwyd yn lleol (staff ategol neu staff cymorth yn bennaf), canran y rhai croenddu neu o leiafrifoedd ethnig oedd 2.5%. Ymhlith y staff academaidd, y ganran oedd 2.25%.
- Yn 2004, cofnodwyd bod 39 o'r staff yn groenddu, o leiafrifoedd ethnig neu o gefndir cymysg. Ymhlith y staff a ddenwyd yn lleol, y ganran oedd 1.88% ac, ymhlith y staff academaidd, 2.9%.
- Yn 2005, cofnodwyd bod 50 o'r staff yn groenddu, o leiafrifoedd ethnig neu o gefndir cymysg, sef 3.5%.
- Yn 2006, cofnodwyd bod 51 o'r staff o gefndir croenddu / o leiafrifoedd ethnig / o gefndir cymysg. Mae hynny'n ostyngiad o 2.5% yn nifer y staff o leiafrifoedd ethnig. Ond os cymerir 'lleiafrifoedd ethnig eraill' i ystyriaeth ar gyfer y naill flwyddyn a'r llall (h.y. cofnodwyd 16 o staff ychwanegol yn 2005 a 25 yn 2006). mae'r ffigur yn codi ychydig, sef i 3.51% ar gyfer 2005 a 3.86% ar gyfer 2006.
- Yn 2007, nodwyd bod 70 o'r staff (3.5%) yn groenddu neu'n dod o leiafrifoedd ethnig a bod 28 o'r staff (1.4%) yn dod o gefndir croenwyn arall. Mae hynny'n gynnydd ers ffigur y llynedd.

**Argymhellion ychwanegol:**

6. Gwahoddiadau i gyfweiliad a llwyddiant mewn cyfweiliad
7. Graddau'r penodiadau a wnaed
8. Lefelau cymharol eu llwyddiant fesul math o swydd/contract (megis parhaol/cyfnod-penodol, amser-llawn/rhan-amser, achlysurol, talu wrth yr awr)
  - I'w hadolygu.

**Cynnydd Gyrfa – y gofynion o ran data:**

9. Staff, fesul gradd a math o swydd
  - Yn y 63 o strwythurau gradd a geir yn PCA, cynrychiolir 24 gradd, neu 34% o'r holl raddau, gan leiafrifoedd ethnig, gan gynnwys cefndir 'Croenwyn Arall'.
  - Mae staff croenddu a staff o leiafrifoedd ethnig wedi'u gwasgaru'n wastad ar draws graddau'r Staff Academaidd a'r Staff Ategol/Cymorth.



10. Staff, yn ôl hyd eu gwasanaeth
  - Mae'r graff yn dangos bod mwy o staff croenddu neu'n dod o leiafrifoedd ethnig a staff o gefndiroedd eraill yn cael eu cyflogi yn PCA.

11. Hyfforddi a datblygu staff, gan gynnwys ceisiadau a dewis, os yw hynny'n briodol.
  - Ers Ionawr 2007, mae staff wedi bod ar 893 o gyrsiau, ac o'r rheiny, cofnodwyd bod 107 o aelodau o'r staff, neu 12%, yn groenddu neu'n dod o leiafrifoedd ethnig neu o leiafrifoedd ethnig croenwyn eraill. (Sylwer y gall staff fod wedi bod ar fwy nag un cwrs).

12. Canlyniadau rhaglenni neu strategaethau hyfforddi a datblygu-gyrfa sy'n targedu staff o grwpiau hiliol penodol.
  - Dim canlyniad.

13. Gwerthusiadau staff
  - Fe ataliwyd system werthuso PCA yn 2003 a phrin iawn yw'r adrannau sy'n cymryd rhan yn y gwerthusiadau ar hyn o bryd. Ymhlith yr adrannau sy'n gwneud hynny mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth, Canolfan y Celfyddydau a'r Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori. Gynt, cynhelid Adolygiadau o Ddatblygiad Personol yn y Gwasanaethau Preswyl.

14. Dyrchafu staff, gan gynnwys y dulliau denu a meini prawf dewis ymgeiswyr
  - I'w adolygu.

**Argymhellion ychwanegol:**

15. Yn ogystal â dyrchafiadau – ailraddio'r staff a chodiadau cyflog
16. Gweithredu disgyblaethol
17. Adroddiadau am ddigwyddiadau o wahaniaethu anghyfreithlon, a'u canlyniadau
18. Cyflawnwyr a dioddefwyr honedig gwahaniaethu anghyfreithlon

19. Defnyddio'r gweithdrefnau cwyno, a chanlyniadau gwneud hynny
20. Rhoi'r gorau i gyflogaeth – rhesymau dros adael
  - I'w hadolygu.